# **Ymateb CLlLC i Ymgynghoriad:** Cod ymarfer drafft ar gyfer Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016

23 Ebrill 2021

# CYFLWYNIAD

1. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn cynrychioli'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r tri awdurdod parc cenedlaethol a'r tri awdurdod tân ac achub yn aelodau cyswllt.

2. Mae'n ceisio cynrychioli awdurdodau lleol o fewn fframwaith polisi datblygol sy'n cyflawni blaenoriaethau ei aelodau ac yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n ychwanegu gwerth at Lywodraeth Leol Cymru a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

3. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad Comisiynydd y Gymraeg ar y cod ymarfer drafft ar gyfer Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.

4. Mae'r ymateb canlynol wedi'i drefnu yn unol â'r cwestiynau penodol a nodwyd yn y ffurflen ymateb ar gyfer y cod ymarfer drafft Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.

# YMATEB I YMGYNGHORIAD

### Cwestiwn 1 - Ar ôl darllen y cod, a oes materion sy'n aneglur? Os felly, beth ydynt?

5. Mae'r cod ymarfer drafft yn darparu canllawiau ymarferol sy'n cefnogi cyrff cyhoeddus i ddehongli termau ac ymadroddion allweddol yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.

6. Mae mwyafrif y cod yn eglur iawn ond byddai cyrff yn elwa o eglurhad pellach o fewn adran 1 '*Cyflwyniad i'r gyfraith',* yn benodol o ran pwyntiau 1.16-1.18. Byddai'n ddefnyddiol deall a fyddai methiant i gydymffurfio gyda'r cod gan gorff yn gam cyntaf i gasglu tystiolaeth o fethiant i gydymffurfio gyda safon a fyddai'n ei dro yn arwain at gamau gorfodi. Byddai darparu enghraifft o drefn y digwyddiadau yn gymorth i egluro'r rôl neu'r berthynas rhwng y canllawiau yn y cod ymarfer ac atebolrwydd corff. Byddai hyn yn gymorth i egluro pwynt 1.17.

7. O fewn adran 2 *'Cyflwyniad i'r cod ymarfer'*, mae pwynt 2.14 yn ymwneud â'r uchod ac er ei fod yn cadarnhau nad yw'r canllawiau yn rhai statudol mae'n cyfeirio'r darllenydd at baragraffau 1.16-1.18 a fyddai'n elwa o eglurhad pellach.

**Cwestiwn 2 – Ydi'r cod yn eich cynorthwyo i ddehongli'r safonau (a'r termau, ymadroddion a dehongliadau yn y rheoliadau)? Os nad ydyw, pa wybodaeth bellach fyddai'n ddefnyddiol?**

8. Ydi. Mae'r cod drafft yn gymorth i gefnogi defnyddwyr i ddehongli'r safonau, y termau a'r ymadroddion sydd yn y rheoliadau. Mae'r strwythur sy'n defnyddio cefndir glas golau i amlygu cwestiynau allweddol yn hynod ddefnyddiol ac yn ei gwneud yn haws cael mynediad at wybodaeth.

9. Mae'r defnydd o ddiagramau yn adran 3 yn gymorth defnyddiol i sicrhau dealltwriaeth y defnyddiwr o'r berthynas rhwng y termau allweddol fel 'person', 'y cyhoedd' ac 'unigolyn'. Gellir gwella hyn ymhellach gyda diagram ychwanegol yn cysylltu'r term 'corff' gyda'r diffiniadau allweddol hyn, yn enwedig gan y gellir dehongli pwyntiau 3.10 a 3.11 fel pwyntiau sy'n gwrthddweud eu gilydd. Byddai ychwanegu enghraifft i bwyntiau 3.10 a 3.11 yn gymorth i ddarllenydd ddeall i ba raddau y mae 'person' yn cynrychioli 'corff' mewn perthynas â'r safonau hyn.

**Cwestiwn 3 - A oes unrhyw rannau o'r cod sy'n gwrthddweud rhannau eraill o'r cod neu unrhyw ddeddfiad arall sy'n effeithio ar eich gwaith?**

10. Gweler y sylwadau uchod o ran egluro pwyntiau 1.16-1.18.

11. Gweler y sylwadau uchod o ran darparu enghraifft mewn perthynas â phwynt 3.10 neu 3.11.

**Cwestiwn 4 – Ydi'r enghreifftiau sydd yn y cod yn eich cynorthwyo i ddeall y gofynion neu eu rhoi yn eu cyd-destun? A oes enghreifftiau pellach y gellid eu cynnwys?**

12. Ydyn, mae'r enghreifftiau yn cynorthwyo i ddeall y gofynion a chynorthwyo i ddarparu cyd-destun. Mae'n hynod ddefnyddiol pan y defnyddir cwestiynau annog. Mae hyn yn gweithio'n dda yn adran 5 mewn perthynas â'r safonau Llunio Polisi, er enghraifft o dan 5.1.2. Mae'r templedi yn yr atodiadau hefyd yn adnodd hynod ddefnyddiol.

**Cwestiwn 5 – Ydi cynnwys unrhyw restrau yn y cod yn eich cefnogi i ddeall y gofynion? A ddylid ehangu cynnwys unrhyw restr?**

13. Ydi, mae cynnwys y rhestrau yn cefnogi defnyddwyr i ddeall y gofynion ac nid oes angen eu hehangu.

**Cwestiwn 6 – Ydi'r cod wedi'i lunio mewn modd sy'n ddealladwy? Os nad ydyw, oes gennych chi unrhyw awgrymiadau o ran sut y gellir ei wella?**

14. Ydi, mae'r cod ymarfer drafft wedi'i lunio mewn modd sy'n ddealladwy. Efallai y byddai'n ddefnyddiol tynnu mwy o sylw at argaeledd templedi defnyddiol yn y cyflwyniad. Lle y defnyddir diagramau, tablau neu flychau testun gyda lliwiau gwahanol, mae hyn yn gymorth i sicrhau bod yr wybodaeth yn fwy hygyrch.

**Cwestiwn 7 - Ydi'r iaith a ddefnyddir yn glir? Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau o ran sut y gellir ei wella?**

15. Ydi, mae'r iaith a ddefnyddiwyd yn glir ar y cyfan gyda rhai enghreifftiau bychan a allai elwa o eglurhad pellach fel y nodwyd uchod (1.16-1.18, 2.14 a 3.10-3.11)

16. Mae'r diffiniadau ychwanegol yn y blychau llwyd yn cefnogi defnyddwyr i ddeall y termau allweddol.

**Cwestiwn 8 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar gynnwys y cod?**

17. Mae gan y fersiwn Saesneg o'r cod ymarfer drafft negeseuon gwall awtomatig i'w cywiro ar dudalennau 3, 7 a 153, lle bo angen croesgyfeiriad.

18. Mae'r fformat ar gyfer arddangos pwyntiau â rhifau yn newid rhwng adrannau 3 a 4.

## CASGLIAD

19. Mae CLlLC yn gwerthfawrogi'r adnodd a'r enghreifftiau ymarferol sydd ynddo. Mae'r templedi a ddarparwyd yn hynod ddefnyddiol i hwyluso cydymffurfiaeth gyda'r safonau. Mae'r cod ymarfer drafft yn cefnogi dehongliad termau allweddol a rheoliadau o fewn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:**

Sharon Davies, Pennaeth Addysg

sharon.davies@wlga.gov.uk

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Tŷ Llywodraeth Leol

Rhodfa Drake

Caerdydd

CF10 4LG

Ffôn: 029 2046 8600

# WLGA Consultation Response:

## Draft code of practice for the Welsh Language Standards (No.2) Regulations 2016

23 April 2021

CLlLC • WLGA

## INTRODUCTION

1. The Welsh Local Government Association (WLGA) represents the 22 local authorities in Wales. The three national park authorities and the three fire and rescue authorities are associate members.

2. It seeks to provide representation to local authorities within an emerging policy framework that satisfies priorities of our members and delivers a broad range of services that add value to Welsh Local Government and the communities they serve.

3. The Welsh Local Government Association welcomes this opportunity to respond to the Welsh Language Commissioner's consultation on the draft code of practice for the Welsh Language Standards (No.2) Regulations 2016.

4. The following response is structured around the specific questions set out in the response form on the draft code of practice for the Welsh Language Standards (No.2) Regulations 2016.

## CONSULTATION RESPONSE

### Question 1 - After reading the code, are there any matters that are unclear? If so, what are they?

5. This draft code of practice provides practical guidance which supports public bodies in interpreting key terms and phrases in the Welsh Language Standards (No.2) Regulations 2016.

6. The majority of the code is very clear however bodies would benefit from further clarification within section 1 *'An Introduction to the law'*, specifically relating to points 1.16 – 1.18. It would be helpful to understand whether a body's failure to comply with this code is the first step in gathering evidence of a failure to comply with a standard which in turn leads to enforcement action. Providing an example of this sequence of events could help clarify the role or relationship between the guidance in this code of practice and a body's liability. This would help clarify point 1.17.

7. Within section 2 *'An introduction to the code of practice',* point 2.14 relates to the above and although it confirms the guidance is not statutory it re-directs the reader to paragraphs 1.16 – 1. 18 which would benefit from further clarification.

**Question 2 - Does the code help you to interpret the standards (and the terms, phrases and interpretations that are in the regulations)? If not, what further information would be helpful?**

8. Yes. The draft code is helpful in supporting users to interpret the standards, terms and phrases that are in the regulations. The structure which uses the light blue background to highlight key questions is particularly useful and makes it easier to access the information.

9. The use of a diagrams in section 3 is a helpful aid in consolidating the user's understanding of the relationship between key terms such as 'person', 'the public' and 'individual'. This could be improved further with an additional diagram linking the term 'body' to these key definitions, particularly as points 3.10 and 3.11 could be interpreted as contradictory. Adding an example to points 3.10 or 3.11 would help a reader to better understand the extent to which a 'person' is representative of a 'body' in relation to these standards.

**Question 3 - Are there any parts of the code that contradict other parts of the code or any other enactment that affects your work?**

10. Please see above comments regarding clarifying points 1.16 – 1.18.

11. Please see above comments regarding providing an example in relation to point 3.10 or 3.11.

**Question 4 - Do the examples that are included in the code better support you to understand the requirements or put them into their context? Are there any further examples that could be included?**

12. Yes, the examples better support understanding of the requirements and help provide context. It is particularly useful when prompt questions are included. This works well in section 5 in relation to the Policy Making standards, for example under 5.1.2. The templates provided in the appendices are also a particularly useful resource.

**Question 5 - Do the contents of any lists in the code support you to understand the requirements? Should the content of any of the lists be expanded?**

13. Yes, the contents of lists support users to understand the requirements and do not require expansion.

**Question 6 - Is the code structured in an understandable way? If not, do you have suggestions on how it could be improved?**

14. Yes, the draft code of practice is structured in an understandable way. It may be useful to draw more attention to the availability of the useful templates in the introduction. Where diagrams, tables or different coloured text boxes are used, this helps make the information more accessible.

**Question 7 - Is the language used clear? Do you have any suggestions on how it could be improved?**

15. Yes, the language used is clear on the whole with a few minor examples that would benefit from further clarification as mentioned above (1.16-1.18, 2.14 & 3.10-3.11).

16. The additional definitions provided in the grey boxes support users to understand key terms.

**Question 8 - Do you have any further comments on the content of this code?**

17. The English language version of the draft code of practice has some automated error messages to correct on pages 3, 7 and 153 where a cross-reference is needed.

18. The format for displaying numbered points changes between sections 3 and 4.

## CONCLUSION

19. The WLGA values this resource and the practical examples shared within it. The templates provided are particularly useful in facilitating compliance with the standards. The draft code of practice supports the interpretation of key terms and regulations within the Welsh Language Standards (No.2) Regulations 2016.

## For further information please contact:

Sharon Davies, Head of Education

sharon.davies@wlga.gov.uk

Welsh Local Government Association

Local Government House

Drake Walk

Cardiff

CF10 4LG

Tel: 029 2046 8600